

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	23 MEDI 2025
Pwnc:	CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2026/27 - 2028/29
Aelod(au) Portffolio:	ROBIN WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD AC AELOD PORTFFOLIO CYLLID A THAI
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES
Ffôn:	01248 752601
E-bost:	rmjfi@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Amherthnasol
A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau	
Argymhellion Mae'n rhaid i'r Cyngor roi system gadarn ar waith i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw, ac mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn elfen allweddol o'r system honno. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac mae'n nodi'r rhagdybiaethau a gynhwysir yn y broses ar gyfer gosod y gyllideb flynyddol. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllido a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2026/27. Mae'r adroddiad manwl ynghlwm fel Atodiad A.	
B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
Mae'r CATC yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a seiliwyd ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Felly, nid ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb, a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.	
Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Ydi, yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.	
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?	
Ni fydd y penderfyniad, er y bydd yn cael effaith ar gyllideb 2026/27, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn creu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. O ganlyniad, ni fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2025/26.	

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Mae'r CATC yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 3 mlynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu i ddiwallu anghenion yr Ynys a'i thrigolion.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae amlinellu a chytuno ar sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer cost gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd cynllunio ariannol da yn golygu bod modd osgoi costau dianghenraid yn y dyfodol.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy.	Mae'r Cyngor, ynghyd â'r 21 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y sefyllfa ariannol ledled Cymru. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r rhagdybiaethau manwl a ddefnyddir yn y cynllun.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol yn destun proses ymgynghori gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad cyn cyflwyno ei gynigion cyllideb terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth bob blwyddyn.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol, a byddai effaith cynigion unigol ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hasesu bryd hynny.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol a byddai effaith y cynigion unigol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu hasesu bryd hynny.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim effaith.
Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 2 Medi 2025. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y TA yn y drafft terfynol.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Caffael	Amherthnasol

Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
8	Sgriwtini	Bydd y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried y CATC a'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 wrth i'r broses pennu cyllideb fynd rhagddi cyn gosod cyllideb 2026/27 ym mis Chwefror / Mawrth 2026.
9	Aelodau Lleol	Mae'r gyllideb yn berthnasol i holl Aelodau'r Cyngor.
F - Atodiadau		
Atodiad 1 - Adroddiad Manwl ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig Atodiad 2 - Rhagdybiaethau'r CATC Atodiad 3 - Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2026/27 - 2028/29		
Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 1.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf, ac mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwysu'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.
- 1.2. Paratowyd y CATC yn ystod cyfnod parhaus o ansicrwydd economaidd. Mae chwyddiant bellach yn sylweddol is, ond mae'n parhau'n uwch na tharged Banc Lloegr, sef 2%, ac mae cyfraddau llog wedi bod yn gostwng yn fwy araf o'r herwydd. Cafwyd Llywodraeth newydd yn y DU yng Ngorffennaf 2024 ac arweiniodd hynny at newid y strategaeth economaidd a'r polisi ariannol a chyllidol. Cwblhaodd Llywodraeth y DU ei adolygiad gwariant cynhwysfawr ym Mehefin 2025 ac, yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cael arwydd cryf o beth fydd ei chyllid yn y dyfodol, ond, oherwydd bod etholiadau Senedd Cymru ar y gorwel, nid yw LIC wedi gallu rhoi arwydd i awdurdodau lleol o beth fydd eu cyllid yn y tymor canolig. Unwaith eto, mae hyn yn golygu ei bod yn anoddach datblygu cynllun ariannol tymor canolig cadarn sy'n seiliedig ar lefelau cyllid yn y dyfodol.
- 1.3. Mae digwyddiadau ledled y byd, megis parhad y rhyfel yn Wcráin ac effaith tollau'r UD ar economi'r byd, yn ychwanegu at yr ansicrwydd ariannol a gallai arafu neu wrthdroi'r gostyngiad mewn chwyddiant. Mae lefel chwyddiant yn allweddol i CATC y Cyngor gan ei fod yn gyrru lefelau dyfarniadau cyflog a'r cynnydd yng nghostau contractau allanol y Cyngor.
- 1.4. Mae'r CATC yn ystyried yr holl newidiadau sy'n hysbys y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2026/27, ac mae'n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflogau, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid LIC, pwysau demograffig a phwysau o ran galw).

2. SEFYLLFA ARIANNOL BRESENNOL Y CYNGOR

- 2.1. Ym mis Mawrth 2025, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

Tabl 1
Cyllideb Refeniw 2025/26

	£'m
Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2024/25	184.164
Chwyddiant Tâl a Chostau Staff Eraill	5.698
Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau	3.380
Pwysau Cyllidebol a Buddsoddi mewn Gwasanaethau	1.887
Costau Cyllido Cyfalaf	(1.116)
Grantiau yn Trosglwyddo i Mewn / (Allan)	0.431
Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Prosiectau Tai	0.999
Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2025/26	195.443
Cyllidir Gan:	
Cyllid Allanol Cyfun	135.881
Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm)	57.102
Cronfeydd Wrth Gefn	2.460
Cyfanswm Cyllid 2025/26	195.443

- 2.2.** Gwelwyd cynnydd o £11.279m yn y gyllideb refeniw net derfynol ar gyfer 2025/26, sef cynnydd o 6.1%. Roedd cynnydd o 3.8% yn y Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad). Roedd cynnydd o 9.5% yn nebyd y Dreth Gyngor. Roedd cynnydd o 8.5% yn y tâl Band D, a newid yn sylfaen y dreth a nifer yr eiddo oedd yn atebol i dalu premiwm y Dreth Gyngor oedd i gyfrif am weddill y cynnydd yn nebyd y Dreth Gyngor.
- 2.3.** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25, nododd y Cyngor danwariant net o £3.875m (2.10%), ac roedd yr holl Wasanaethau, ar wahân i Ofal Cymdeithasol Plant, Adnoddau a Busnes y Cyngor, wedi tanwario. Roedd y gorwariant yn y gwasanaethau Busnes y Cyngor ac Adnoddau'n fychan ac i'w priodoli i faterion penodol yn 2024/25, a dylent gael eu datrys yn 2025/26.
- 2.4.** Mae'r sefyllfa o ran Gwasanaethau Plant yn fwy pryderus, gyda nifer y plant mewn gofal yn cynyddu a chost lleoliadau yn cynyddu'n sylweddol. Mae hwn yn wasanaeth statudol sy'n cael ei arwain gan y galw ac, i raddau helaeth, nid yw'r Cyngor yn gallu ei reoli. Mae'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Plant wedi cynyddu 136% ers 2017/18, tra bod cyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor ond wedi codi 46.7%, ac mae'r gyllideb bellach yn cyfrif am 9% o gyllideb refeniw net y Cyngor, o'i gymharu â 5.9% yn 2017/18. Er bod y cyllid wedi cynyddu, mae'r Gwasanaeth yn parhau i orwario yn erbyn ei gyllideb (13.5% yn 2024/25), ac, yn ôl arwyddion cynnar, bydd yn gorwario eto yn 2025/26, er bod swm ychwanegol o £2m wedi'i ychwanegu at y gyllideb. Mae sefyllfa ariannol y Gwasanaeth yn risg i sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig a'r tymor hir, er bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau gyllido'r ar gael iddo i ariannu'r costau uwch yn y tymor byr.
- 2.5.** Yn gyffredinol, roedd tanwariant cyfun o £1.949m ar gyllidebau gwasanaethau'r Cyngor yn 2024/25, ond os yw'r amrywiannau nad ydynt yn rhai parhaol yn cael eu diystyru (swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol ac incwm ychwanegol), y sefyllfa sylfaenol yw gorwariant o £3m. Rhoddwyd sylw i'r mwyafrif o'r diffyg yn y gyllideb hon wrth osod cyllideb 2025/26, ond erys elfen o dangyllido.
- 2.6.** Mae'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd 2024/25 wedi cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor, o £11.182m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £18.166m, er bod £2.460m wedi'i ddefnyddio fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26. Mae hyn yn gostwng y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i £15.706m. Y tanwariant a nodwyd uchod, ynghyd â £3.7m o gyllid ychwanegol gan LIC a dderbyniwyd yn ystod 2024/25, oedd y rheswm am y cynnydd.
- 2.7.** Gellir defnyddio'r balansau cyffredinol i gyllido costau ychwanegol a gyfyd yn ystod y flwyddyn nad oes cyllid ar eu cyfer, a byddent yn cyllido unrhyw orwariant a allai godi yn ystod 2025/26. Mae'r Cyngor wedi gosod targed o gadw 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net fel isafswm balans ar gyfer y cronfeydd wrth gefn cyffredinol, mae hyn gyfwerth â £9.8m yn 2025/26, ac mae £5.9m yn is na'r lefel bresennol.
- 2.8.** Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor i gyllido prosiectau untro penodol, costau disgwylidig yn y dyfodol (e.e. colledion heb eu hyswirio) a chyllid grant heb ei ddefnyddio, yn £18.294m ar 31 Mawrth 2025, cynnydd o £1.777m yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn a throsglwyddwyd £0.1m o gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor.
- 2.9.** Bu gostyngiad ym Malansau Ysgolion yn ystod 2024/25 hefyd, gan ostwng o £5.577m i £5.074m. Roedd sefyllfa cyllideb y Cyngor yn caniatáu iddo gyllido'r cynnydd yn yr holl gostau yn llawn yn 2025/26. Mae ysgolion yn bwriadu defnyddio swm ychwanegol o £2.25m o'u balansau i gyllido eu costau yn 2025/26. Os yw'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yr un mor heriol ag y mae ar hyn o bryd, mae balansau ysgolion yn debygol o ostwng ymhellach.

2.10. Derbyniodd y Cyngor gynnydd yn lefel y CAC gan LIC, cynnydd o £8.295m (6.6%) mewn termau ariannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd mewn cyllid yn cwrdd â'r pwysau chwyddiant a wynebair Cyngor, felly nid oedd yn gynnydd ariannol mewn termau real. Bu cynnydd o 8.5% yn y Dreth Gyngor ac nid oedd y cynnydd hwn, ynghyd â'r cynnydd yn y CAC, yn ddigon i gyllido'r cynnydd oedd ei angen yng nghyllideb refeniw net y Cyngor. Oherwydd hyn, defnyddiwyd £2.46m o gronfeydd wrth gefn er mwyn cydbwysu'r gyllideb, ar ben yr £8.205m a ddefnyddiwyd yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Mae'n bosibl defnyddio cyllid o'r cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr ac mae hynny'n rhoi amser i'r Cyngor sicrhau bod gwariant hirdymor yn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael, ond nid yw'n bosibl parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor hir ac mae defnyddio cyllid o'r cronfeydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor.

2.11. Mae CIPFA yn argymhell defnyddio 4 dangosydd gwydnwch ariannol i asesu sefyllfa ariannol y Cyngor, sef:-

- Bwlch Cyllido fel canran o'r Gwariant Refeniw Net, cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor;
- Gor / Tanwariant o gymharu â gwariant refeniw net;
- Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel canran o'r gyllideb refeniw net;
- Costau Cyllido Cyfalaf fel canran o wariant refeniw net.

2.12. Mae'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â phob dangosydd fel a ganlyn:

2.12.1

Tabl 2

Y Bwlch Cyllido fel Canran o'r Gyllideb Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Ddisymud	CAC	Y Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol (nodyn 1)	Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor	Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido	% Bwlch
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	132.337	94.924	33.644	128.568	3.769	2.85%
2019/20	134.702	95.159	35.087	130.246	7.156	5.21%
2020/21	142.203	101.005	39.370	140.375	1.828	1.29%
2021/22	147.076	104.825	41.161	145.986	1.090	0.74%
2022/23	155.501	114.549	42.957	157.506	(2.005)	(1.29%)
2023/24	173.830	123.665	44.879	168.544	5.286	3.04%
2024/25	188.992	126.973	47.628	174.601	14.391	7.61%
2025/26	199.025	135.605	52.628	188.233	10.792	5.42%
Nodyn 1 - Mae ffigurau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol wedi'u haddasu i ystyried newidiadau yn sylfaen y dreth						

Dengys y tabl bod y cyfnod o gynni wedi parhau yn 2018/19 a 2019/20, a bod y bwlch cyllido yn golygu bod angen gwneud arbedion a chynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. Yna bu gwelliant yn y sefyllfa yn 2020/21 a 2021/22, a llwyddwyd i lenwi'r bwlch cyllido drwy godi'r dreth gyngor yn unol â chwyddiant neu'n is na chwyddiant. Roedd y sefyllfa'n sylweddol well yn 2022/23, ac roedd yn golygu bod modd gwneud buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau, ond mae'r sefyllfa wedi gwaethygu eto ers 2023/24, gyda'r gyllideb yn cael ei chydbwysu drwy gyfuniad o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor ac arbedion cyllidebol.

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, trafodir sut mae'r sefyllfa o 2026/27 ymlaen yn cymharu â'r data hanesyddol hwn.

2.12.2

Tabl 3

Gor / Tan wariant o gymharu â Gwariant Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Refeniw Net	Gwariant Refeniw Net Gwirioneddol	Gor / (Tan) Wariant	% Gor / (Tan) Wariant
	£'m	£'m	£'m	
2019/20 Gwirioneddol	135.210	134.902	(0.308)	(0.23%)
2020/21 Gwirioneddol	142.146	137.942	(4.204)	(2.96%)
2021/22 Gwirioneddol	147.120	142.323	(4.797)	(3.26%)
2022/23 Gwirioneddol	158.367	157.154	(1.213)	(0.77%)
2023/24 Gwirioneddol	174.569	172.837	(1.732)	(0.99%)
2024/25 (yn amodol ar archwiliad)	184.164	180.289	(3.875)	(2.10%)
2025/26 (yn unol â'r rhagolwg Ch1)	195.443	193.892	(1.551)	(0.79%)

Er gwaethaf y sefyllfa ariannol heriol bob blwyddyn, mae'r tabl yn amlygu bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw ei wariant net cyffredinol o fewn y gyllideb, gyda Gwasanaethau'n cyd-ymdrechu i leihau costau neu ohirio gwariant. Mae swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol a chynnydd mewn incwm wedi helpu'r sefyllfa hefyd.

2.12.3

Tabl 4
Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio fel Canran o'r Gyllideb Refeniw Net (CRN)

Blwyddyn	Cyllideb Refeniw Net	Balansau Cyffredinol	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	Balansau Ysgolion	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	% Cronfeydd y Gellir eu Defnyddio o gymharu â'r CRN
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	130.900	5.912	9.458	0.631	16.001	12.22%
2019/20	135.210	7.060	8.760	0.197	16.017	11.85%
2020/21	142.146	11.437	15.455	3.974	30.866	21.71%
2021/22	147.120	12.278	23.183	7.827	43.288	29.42%
2022/23	158.367	14.039	19.638	6.716	40.393	25.51%
2023/24	174.569	15.607	16.517	5.577	37.701	21.60%
2024/25	184.164	18.166	21.449	5.074	44.688	24.27%
Rhagolwg 2025/26	195.442	15.706	12.637	3.264	31.607	16.17%

Mae'r tabl yn dangos bod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi cryfhau'n sylweddol ers 2018/19 o ganlyniad i'r tanwariant yn ystod y bum mlynedd ariannol ddiwethaf, ynghyd â chefnogaeth grant ychwanegol gan LIC a ddarparwyd tu allan i'r setliad grant arferol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n gwanhau eto yn 2025/26 wrth i falansau cyffredinol a balansau ysgolion gael eu defnyddio i gyllido cyllidebau ac wrth i gronfeydd wrth gefn clustnodedig gael eu defnyddio. Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod gallu'r Cyngor i barhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau fel ffynhonnell gyllido yn dod i ben a bydd angen i gyllidebau yn y dyfodol fynd i'r afael â'r tangyllido strwythurol sylfaenol, naill ai trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu ostwng gwariant net.

2.12.4

Tabl 5

Costau Cyllido Cyfalaf fel Canran o Wariant Refeniw Net (GRN)

Blwyddyn	Cyllideb Refeniw Net	Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)	Llog i'w Dalu	Llog a Dderbynnir	Cyfanswm Costau Cyllido Cyfalaf	% Costau Cyllido Cyfalaf yn erbyn GRN
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	130.900	2.463	4.041	(0.062)	6.442	4.92%
2019/20	135.210	2.655	4.261	(0.127)	6.789	5.02%
2020/21	142.146	2.696	4.159	(0.045)	6.810	4.79%
2021/22	147.120	2.752	3.988	(0.016)	6.724	4.57%
2022/23	158.367	1.325	4.233	(0.800)	4.758	3.00%
2023/24	174.569	1.446	5.773	(3.071)	4.148	2.38%
2024/25	184.164	1.569	3.890	(0.883)	4.576	2.48%
2025/26 (Cyllideb)	195.443	0.495	4.592	(0.450)	4.636	2.37%

Gellir priodoli'r gostyngiad yn y ganran i ddau ffactor. Yn gyntaf, nid oes unrhyw fenthycha allanol ychwanegol wedi digwydd ers mis Chwefror 2020, ac rydym wedi defnyddio balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf y bwriadwyd yn wreiddiol ei gyllido drwy fenthycha â chefnogaeth neu fenthycha digefnogaeth. Yn ail, yn sgil newid y polisi DRI yn 2022/23, hanerwyd y tâl DRI blyneddol yn y blyneddodd cynnar, er y bydd y tâl yn cynyddu mewn blyneddodd i ddod.

Mae'r dangosydd hwn yn arwydd da o iechyd ariannol gan ei fod yn dangos faint o gyllideb refeniw net flynyddol y Cyngor sy'n cael ei defnyddio i gyllido benthyciadau. Po isaf yw'r ffigwr, y mwyaf o gyllid sydd ar gael i gyllido gwasanaethau'r Cyngor.

3. RHAGOLYGN ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

- 3.1. Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy'n darparu holl gyllid LIC, ac mae'r hyn sy'n digwydd yn economi'r DU a'r gyllideb yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid Llywodraeth Cymru a chyllid awdurdodau lleol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r CATC.
- 3.2. Mae'r pandemig byd-eang, y rhyfel yn Wcráin ac effaith Brexit wedi bod yn sioc sylweddol i economi'r DU ac, o ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi darparu lefelau digynsail o gymorth i unigolion a busnesau ar ffurf grantiau Covid, grantiau cymorth ynni a grantiau cymorth costau byw. Mae dyled gros Llywodraeth y DU (fel yr adroddwyd gan yr ONS) yn £2.89 triliwn ar hyn o bryd, sef 101.0% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y wlad. Mae hyn yn cymharu â £2.75 triliwn (ym mis Mawrth 2024), sef 99.6% o GDP.
- 3.3. Yn ystod 2024/25, benthycodd y Llywodraeth £149bn, o gymharu â £131bn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac mae wedi benthycha £57.8bn yn barod yn ystod chwarter cyntaf 2025/26. Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd y Canghellor reolau ariannol newydd, sef:-
 - i. Bod rhaid symud i sefyllfa lle mae'r gyllideb flynyddol yn cydbwysu, h.y. mae'n rhaid cwrdd â chostau dydd i ddydd o incwm y llywodraeth;
 - ii. Mae'n rhaid i'r ddyled fod yn gostwng fel canran o GDP erbyn pumed flwyddyn y rhagolwg, h.y. diwedd y senedd bresennol yn 2029.

- 3.4.** Er mwyn cyflawni'r targedau hyn, cyhoeddodd y Canghellor nifer o newidiadau i fudd-daliadau anabledd a thaliadau tanwydd y gaeaf, oedd wedi'u cynllunio i ostwng gwariant gan oddeutu £15bn erbyn 2029. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r newidiadau hyn wedi cael eu gwrthdroi, gan olygu y bydd rhaid i'r Canghellor ddod o hyd i doriadau eraill mewn gwariant neu gynyddu trethi er mwyn llenwi'r diffyg yn y gyllideb.
- 3.5.** Mae nifer o ddigwyddiadau wedi cynyddu chwyddiant yn economi'r DU. Cynnydd cyflym mewn costau ynni ar ôl i'r rhyfel yn Wcráin ddechrau oedd bennaf i gyfrif am y cynnydd, ond mae prinder gweithwyr ym marchnad lafur y DU yn dilyn Brexit, problemau yn y gadwyn gyflenwi fyd-eang yn dilyn Covid a chynnydd mewn costau mewnforio hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn chwyddiant. Cyrhaeddodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) uchafswm o 11.1% ym mis Hydref 2022, cyn gostwng yn ôl i 1.7% ym mis Medi 2024. Fodd bynnag, mae chwyddiant wedi cynyddu yn sgil cynnydd mewn prisiau ynni ac olew, ynghyd â'r tollau masnach a osodwyd gan yr UD, a chododd y CPI i 3.6% ym Mehefin 2025. Rhagwelir y bydd chwyddiant yn codi i 3.8% ym mis Gorffennaf / Awst 2025, cyn dechrau gostwng yn ystod ail hanner 2025, cyn cyrraedd targed Banc Lloegr o 2% yn hwyr yn 2026.
- 3.6.** Torrwyd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr i 0.1% ym mis Mawrth 2020 ac arhosodd ar y lefel isel iawn hon tan ddechrau 2022. Wrth i chwyddiant ddechrau codi, cododd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr y gyfradd sylfaenol fesul symiau bychan o 0.25% neu 0.5% yn ystod pob adolygiad, a chyrhaeddodd uchafswm o 5.25% ym mis Awst 2023. Arhosodd y gyfradd ar y lefel hon tan Awst 2024, pan ddechreuodd ostwng fesul symiau bychan, nes cyrraedd ei lefel bresennol o 4.25%. Mae Banc Lloegr wedi ymrwymo i reoli chwyddiant, a chyfraddau llog yw'r prif arf er mwyn cyflawni'r nod hwn. Wrth i gyfraddau llog godi, mae gan ddefnyddwyr lai o incwm dros ben i'w wario ac mae hyn, yn ei dro, yn lleihau'r galw economaidd sydd, yn ei dro, yn lleihau chwyddiant. Mae p'un a fydd cyfraddau llog yn parhau i godi neu ddechrau gostwng yn dibynnu ar p'un a fydd chwyddiant yn unol â tharged Banc Lloegr neu yn agos ati. Rhagdybiwyd y byddai cyfraddau llog yn parhau i gael eu torri, gan gyrraedd tua 3% yn 2026, ond gallai cyfraddau llog ostwng yn arafach na'r disgwyl oherwydd bod chwyddiant yn uwch na'r disgwyl. Mae'n debygol wedyn y byddant yn aros ar y lefel hon hyd y gellir rhagweld ac ni fyddant yn disgyn i'r lefelau isel iawn a welwyd rhwng 2009 a 2021.
- 3.7.** Ar hyn o bryd, mae strategaeth economaidd y Llywodraeth yn canolbwyntio ar dyfu'r economi er mwyn cynhyrchu refeniw ychwanegol o drethi. Gwelwyd twf o 1.8% yn yr economi yn 2024/25, ond crebachodd gan 0.4% yn ystod dau fis cyntaf 2025/26. Rhagwelir twf o thua 1.1% yn yr economi yn 2025 a 1.0% yn 2026, ond mae lefel twf o'r fath yn annhebygol o gwrdd â'r pwysau ychwanegol ar gostau yn gysylltiedig â gwariant y llywodraeth.
- 3.8.** Mae Llywodraeth y DU yn wynebu pwysau cynyddol i gynyddu gwariant ar feysydd blaenoriaeth uchel, megis y GIG, yn ogystal â chynyddu gwariant ar amddiffyn, a gwnaed ymrwymiad i gynyddu gwariant ar amddiffyn i 2.5% o GDP yn Ebrill 2027 a 3% yn ystod y senedd nesaf. Gyda benthyca'n uwch nag erioed, a'r baich treth yn uchel hefyd, nid oes gan y Llywodraeth fawr o opsiynau mewn perthynas â gwariant cyhoeddus, a bydd angen torri cyllidebau sydd ddim yn cael eu gwarchod er mwyn amddiffyn rhai gwasanaethau.
- 3.9.** Mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r lefel uchaf a welwyd ers yr ail ryfel byd, ac mae refeniw trethi bellach gyfystyr â 40% o GDP, a rhagwelir y bydd yn parhau i godi i 41.7% erbyn 2027/28, sef y lefel uchaf ers 1970. Mae rhewi trothwyon treth incwm a chynyddu'r dreth gorfforaethol wedi cyfrannu at y cynnydd. Mae'r baich dreth uchel yn cyfyngu ar allu'r Llywodraeth i gynyddu gwariant cyhoeddus trwy gynyddu trethi uniongyrchol neu anuniongyrchol. Mae'r Llywodraeth Llafur newydd wedi addo peidio â chynyddu treth incwm, yswiriant gwladol na TAW, a bydd hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Llywodraeth i gyllido gwariant cyhoeddus ychwanegol trwy refeniw treth uwch.

- 3.10.** Mae'r sefyllfa economaidd yn parhau i wella, gyda chwyddiant bellach dan reolaeth ac mae gobaith y bydd cyfraddau llog yn gostwng a thwff economaidd yn dychwelyd. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r lefel uwch nag erioed o ddyled genedlaethol a'r baich dreth uchel, ac mae hyn yn cyfyngu'r posibilrwydd o gynyddu gwariant cyhoeddus yn y tymor byr a chanolog.
- 3.11.** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i warchod cyllideb y Gwasanaeth Iechyd, ynghyd â chynyddu gwariant ar amddiffyn. Bydd hyn yn gofyn am ostyngiad termau real mewn cyllidebau heb eu gwarchod, gan gynnwys y cyllid a ddaw i Gymru. Ni ragwelir, felly, y bydd y cyfyngiadau ariannol ar gyllid y Cyngor yn llacio yn y tymor byr i ganolog.

4. CYLLID GAN LYWODRAETH CYMRU

- 4.1.** Mae cyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf. Ar ôl ystyried grantiau a drosglwyddwyd i mewn ac allan o'r setliad a chyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifoldebau newydd, bu gostyngiad yn y setliad llywodraeth leol, mewn termau ariannol, bob blwyddyn rhwng 2013/14 a 2019/20. Ers 2020/21, mae'r setliadau wedi bod yn uwch na lefel y CPI, ond mae lefel y setliad i lywodraeth leol yn parhau i fod 8% yn is na phe byddai'r CPI yn berthnasol i'r setliad ers 2013/14. Dylid nodi hefyd fod lefel y chwyddiant a wynebwr gan Gynghorau'n wahanol iawn i'r CPI.
- 4.2.** Mae tua 50% o gyllideb LIC yn cyllido'r GIG yng Nghymru, ac mae LIC dan bwysau i fynd i'r afael â chynnydd yn y rhestrau aros a mwy o alw am wasanaethau. Mae tua 25% o gyllideb LIC yn cael ei neilltuo ar gyfer Llywodraeth Leol. Gan fod y ddau faes yn wynebu pwysau o ran y galw a chostau, bydd yn anodd iawn pennu cyllidebau sydd yn cyllido cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd yn y galw yn llawn yn y GIG a Llywodraeth Leol.
- 4.3.** Roedd yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025, yn nodi'r cyllid posib ar gyfer Cymru hyd at 2028/29. Ar gyfartaledd, mae disgwyl twf o 1.4% mewn termau real yn y grant bloc i Gymru bob blwyddyn. Daw'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn o ganlyniad i gyllid canlyniadol yn deillio o gynnydd yng nghyllidebau'r GIG ac ysgolion yn Lloegr. Hyd yn oed pe byddai'r cyllid canlyniadol yn cael ei drosglwyddo i wasanaethau cyfatebol yng Nghymru, byddai cyllid y GIG yn parhau i dyfu ar lefel is na'r cyfartaledd hanesyddol tymor hir (3.6%). Ond byddai hyn yn golygu fod gwasanaethau eraill yn wynebu cyllidebau tynn mewn blynyddoedd i ddod, a bod y cyllidebau hynny yn wastad - ar y gorau - mewn termau real. Mae cyllideb 2026/27 yn adlewyrchu'r ffaith fod y setliad yn uwch yn y flwyddyn gyntaf a bydd cyllidebau 2027/28 a 2028/29 yn is.
- 4.4.** Bydd amseriad etholiadau Senedd Cymru hefyd yn effeithio ar y setliad yn y dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyhoeddi y bydd cyllideb 2026/27 yn seiliedig ar gyllideb 2025/26 gyda chwyddiant (sef 2% yn ôl y gred gyffredinol). Bydd hyn yn gadael tua £400m o gyllid heb ei ddyrannu a chaiff y Llywodraeth newydd benderfynu sut i ddyrannu'r arian fydd yn weddill. Pe byddai 25% o'r cyllid sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol, byddai'n darparu 1.57% yn ychwanegol ar ben y 2% a ganiatawyd ar gyfer chwyddiant.
- 4.5.** Ar sail yr uchod, gallai'r setliad ar gyfer llywodraeth leol yn 2026/27 fod yn £6.361bn, ar ôl caniatáu am y grant ychwanegol o £97.223m i gwrdd â chyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol, ynghyd â chynnydd o 2% ar gyfer chwyddiant, a bod £100m o'r £400m sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol. Byddai hyn gyfystyr â chynnydd ariannol o £322m (5.24%), a byddai gyfystyr â chynnydd ariannol o thua £7m i'r Cyngor.
- 4.6.** Dylid nodi y byddai'r £400m yn cael ei ddyrannu yn dilyn etholiadau Senedd Cymru a byddai'n rhy hwyr i gynnwys unrhyw ddyraniad i'r Cyngor yn y gyllideb sy'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2026.

5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

- 5.1.** Mae Llywodraeth Leol, yn gyffredinol, yn wynebu llawer o bwysau cyllidebol, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. Ym mis Medi 2024, amcangyfrifodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fod Cyngorau yng Nghymru yn wynebu diffyg o £521m yn eu cyllidebau yn 2025/26, ynghyd â diffyg pellach o thua £460m yn 2026/27 a 2027/28, yn seiliedig ar ddarparu'r gwasanaethau ar lefel y galw disgwylidig a cyllido pwysau chwyddiant. Mae arolwg newydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei gynnwys yn y broses o osod cyllideb 2026/27.
- 5.2.** Credir bod y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod cyfnod y cynllun hwn yn cael ei achosi gan y meysydd canlynol:-

i. Codiadau Cyflog – Cyflogau Staff nad ydynt yn Athrawon

Pan bennwyd cyllideb 2025/26, caniatwyd £1,500 ar gyfer pob graddfa gyflog. Roedd y dyfarniad cyflog terfynol a gytunwyd yn gynnydd o 3.2% ar gyfer pob graddfa gyflog. Er bod hyn yn creu gwahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog yn y gyllideb a'r graddfeydd cyflog gwirioneddol, yn gyffredinol rhagwelir fod y gyllideb ar gyfer 2025/26 yn ddigonol i gwrdd â'r costau uwch.

Un ffactor sylweddol sy'n effeithio ar y dyfarniad cyflog yn y dyfodol yw'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn dilyn cytuno ar ddyfarniad cyflog 2025/26, dilëwyd pwynt 2 ar y raddfa er mwyn sicrhau fod y pwynt isaf ar y raddfa gyflog yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae Tabl 6 isod yn dangos y gwahaniaethau:-

Tabl 6
Cymhariaeth o'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Pwynt Isaf ar y Raddfa Gyflog NJC

	2024/25	2025/26	2026/27
Cyfradd Fesul Awr y Pwynt Isaf ar y Raddfa NJC	£12.26	£12.65	£12.90 ¹
Cyflog Byw Cenedlaethol	£11.44	£12.21	£12.65 ²
Gwahaniaeth rhwng y raddfa NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol	£0.82	£0.44	£0.25
% Gwahaniaeth rhwng y raddfa NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol	7.2%	3.6%	2.0%
1. Yn seiliedig ar gynnydd o 2% mewn chwyddiant			
2. Yn seiliedig ar amcangyfrif canolog y Comisiwn Tâl Isel = 3.6%			

Er mwyn cynnal neu gynyddu'r gwahaniaeth, byddai angen cynnydd uwch na chwyddiant yn y pwyntiau isaf ar y raddfa NJC, a gallai hyn olygu fod rhaid ailstrwythuro'r raddfa gyflog i greu bwlch digonol rhwng y graddfeydd NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Er mwyn cynnal gwahaniaeth o 3.6%, byddai angen codi'r pwynt isaf ar y raddfa i £13.10, sef cynnydd o 3.6%.

Ymddengys bod dyfarniadau cyflog, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn uwch na lefel y CPI, ac ni ymddengys y bydd hyn yn newid yn y tymor byr. Rhagwelir dyfarniad cyflog uwch na chwyddiant yn 2026/27, ond gallai'r dyfarniad cyflog o 2027/28 ymlaen fod yn agosach at lefel chwyddiant.

ii. Codiadau Cyflog - Cyflogau Athrawon

LIC sy'n pennu cyflog athrawon, ac mae'r dyfarniad cyflog yn weithredol o fis Medi bob blwyddyn. Mae dyfarniad cyflog o 4% wedi'i bennu ar gyfer mis Medi 2025, sef 2% yn uwch na'r swm a ganiatawyd yn y gyllideb. Bydd angen cywiro'r gyllideb, felly, ond gallai'r cyfan neu ganran o'r cynnydd hwn gael ei gyllido, fel yn y gorffennol, trwy grant ychwanegol gan LIC, a byddai'n cael ei ymgorffori wedyn yn y setliad ar gyfer 2026/27.

Mae rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yn Lloegr yn pwyso am ddyfarniadau cyflog sydd yn sylweddol uwch na chwyddiant, a gallai hyn annog athrawon yn Lloegr, a Chymru yn sgil hynny, i ofyn am godiad cyflog sy'n uwch na chwyddiant.

Wrth benderfynu ar y rhagdybiaeth ar gyfer y dyfarniad cyflog i athrawon, amcangyfrifir codiad cyflog o CPI + 1% ym mis Medi 2026 at ddibenion y rhagolwg canolog.

iii. Cyfraniadau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon

Ail-brisiwyd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2022 ac mae'r cyfraddau cyfrannu newydd i gyflogwyr yn weithredol yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2026. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar gyfrifo cyfraddau cyfrannu'r cyflogwr, gan gynnwys perfformiad buddsoddiadau'r gronfa, lefel cyfraddau gilt sy'n pennu cyfradd ddisgownt rhwymedigaethau yn y dyfodol, a chyfansoddiad yr aelodaeth bresennol. O ystyried bod y cynllun yn cael ei gyllido'n llawn ar hyn o bryd, y gobaith yw y bydd unrhyw newid i'r gyfradd gyfrannu'n fychan iawn. Byddai pob cynnydd o 1% yn y gyfradd yn golygu cynnydd o thua £500k yng nghostau'r Cyngor.

Mae'r gronfa pensiwn yn cael ei hailbrizio ar hyn o bryd, a rhagwelir gostyngiad yng nghyfradd gyfrannu'r Cyngor. Mae swm y gostyngiad yn ddibynnol iawn ar ragdybiaethau'r Actuari sydd yn effeithio ar rwymedigaethau yn y dyfodol. Mae sefyllfa gyllido'r gronfa'n iach iawn ar hyn o bryd.

Cafodd y Cynllun Pensiwn Athrawon ei ailbrizio ym mis Ebrill 2024, gyda chyfraddau cyfrannu athrawon yn cynyddu o 23.58% i 28.58%. Ni fydd y gronfa'n cael ei hailbrizio eto tan 2028, felly, ni ragwelir unrhyw newidiadau pellach yn ystod cyfnod y cynllun hwn. Ni ragwelir unrhyw newid yn y gyfradd gyfrannu, at ddibenion y cynllun, ond, pe byddai'n cynyddu, y rhagdybiaeth yw y byddai Llywodraeth y DU yn cyllido'r gost ychwanegol.

iv. Contractau Gwasanaeth Mawr

Mae nifer o Wasanaethau'r Cyngor yn cael eu allanoli gan gynnwys casglu a gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol a chontractau bysiau gwasanaeth cyhoeddus. Mae mwyafrif y contractau yn gytundebau hirdymor a ddaw i ben ar ôl diwedd cyfnod y cynllun hwn. Mae pris pob contract yn cael ei godi'n flynyddol gan ddefnyddio set o fynegeion chwyddiant a bennir ymlaen llaw ac a ddiffinnir ym mhob contract. Mae'r gyllideb ar gyfer y contractau hyn oddeutu £24m, ac mae'r cynnydd fel arfer yn ddibynnol ar fynegeion chwyddiant yn yr hydref blaenorol. Wrth i chwyddiant ostwng, mae'r cynnydd yng nghostau'r contractau hyn yn lleihau, ac amcangyfrifir cynnydd o thua £0.8m yn 2026/27 a chynnydd o thua £0.5m yn 2027/28 a 2028/29. Dylid nodi, serch hynny, y gallai effaith cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr olygu bod addasiad arbennig yn cael ei wneud i'r cynnydd mewn prisiau yn 2026/27.

v. Costau Ynni

Y gyllideb bresennol ar gyfer ynni (trydan a nwy) yn 2025/26 yw £3.14m (£1.91m ar gyfer trydan a £1.23m ar gyfer nwy), ac mae'r costau uchaf yn gysylltiedig ag ysgolion uwchradd, canolfannau hamdden a phrif swyddfeydd y Cyngor. Mae llawer o waith wedi'i wneud i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys gosod paneli solar a boeler newydd yn Swyddfeydd y Cyngor, a bydd pympiâu gwres yn cael eu gosod ac insiwleiddio'n cael ei wella mewn 27 ysgol ac mewn adeiladau eraill y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf yn sgil derbyn cyllid grant ychwanegol.

Ail-dendrodd y Cyngor ei gontractau nwy a thrydan yn gynnar yn 2024, ac roedd y cyfraddau newydd yn dod i rym ym mis Hydref 2024, gyda phrisiau'n sefydlog tan fis Hydref 2027. Manteisiodd y broses dendro ar ostyngiad sylweddol ym mhrisiau nwy a thrydan, a gwelwyd gostyngiadau o dros 20% yn deillio o'r broses dendro.

Dylai unrhyw gynnydd posib yn y prisiau newydd ym mis Hydref 2027 gael ei wrthbwyso gan ostyngiad yn y defnydd o nwy a thrydan o ganlyniad i'r buddsoddiad newydd mewn dulliau cynhyrchu gwres a thrydan amgen.

vi. Ffioedd Cartrefi Nyrsio Henoed, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Chartrefi Gofal Preswyl

Ers nifer o flynyddoedd, penderfynwyd ar y cynnydd blynyddol mewn ffioedd cartrefi nyrsio henoed, pobl hŷn bregus eu meddwl a chartrefi gofal preswyl gan ddefnyddio pecyn adnoddau safonol y mae'r 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru yn ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynyddu eu ffioedd. Yn 2022, dechreuodd awdurdodau gefnu ar y pecyn cymorth, ond maent yn parhau'n ymrwymedig i geisio cynnal trefniant rhanbarthol. Bu cynnydd o thua 31% yn ffioedd y Cyngor yn ystod y tair blynedd ers 2022/23. Roedd y cynnydd yn adlewyrchu lefel uwch chwyddiant, cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ac effaith y newid i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.

Mae cynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn parhau i ddadlau nad yw'r ffioedd sy'n cael eu talu gan y Cynghorau yn cyllido'r costau a wynebwr gan gartrefi gofal yn llawn, a bod y ffioedd a delir gan gynghorau Gogledd Cymru yn is, yn gyffredinol, na'r rhai a delir gan gynghorau yn Ne Cymru.

Mae nifer y cleientiaid sy'n cael eu rhoi mewn cartrefi wedi sefydlogi ac mae'r costau bellach o fewn y gyllideb, ond gallai hyn newid yn gyflym, yn enwedig dros y gaeaf pan fydd mwy o bwysau i ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r cynllun yn parhau i ganiatáu cynnydd uwch na chwyddiant mewn ffioedd yn 2026/27 a 2027/28, gyda chynnydd mewn ffioedd wedyn yn gostwng yn ôl i lefelau chwyddiant yn 2028/29. Mae pob cynnydd o 1% mewn ffioedd yn ychwanegu tua £120k at wariant y Cyngor.

vii. Contract Gofal Cartref

Mae rhan o'r gwasanaeth gofal cartref yn cael ei allanoli i'r sector preifat, ac mae'r contractau'n cael eu hail-dendro'n rheolaidd. Mae cynnydd blynyddol yn y gyfradd fesul awr yn cael ei drafod gyda phob darparwr, a'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar gostau yw'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Disgwylir i'r Cyflog Byw Cenedlaethol godi 3.6% yn 2026/27, ac mae'r cynnydd hwn, ynghyd â 0.5%, wedi'i gynnwys yn y cynllun ar gyfer 2026/27, gyda chynnydd yn unol â chwyddiant cyffredinol yn y ddwy flynedd ganlynol.

viii Gwasanaethau Plant

Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant mewn gofal a chost darparu gofal ac, o ganlyniad, buddsoddwyd yn sylweddol yn y Gwasanaeth. Er gwaetha'r cynnydd yn y gyllideb flynyddol, mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau sylweddol mewn costau ac, o ganlyniad, cofnodwyd gorwariant yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae Tabl 7 isod yn crynhoi'r sefyllfa ariannol:-

Tabl 7
Gwasanaethau Plant - Cyllideb a Gwirioneddol 2017/18 - 2025/26

Blwyddyn	Cyllideb £	Cynnydd yn y Gyllideb %	Gwirioneddol £	Amrywiant £
2017/18	8,292,690		£10,075,336	1,782,646
2018/19	8,728,680	5.3%	£10,565,374	1,836,694
2019/20	10,274,340	17.7%	£10,430,480	156,140
2020/21	10,971,160	6.8%	£10,258,066	-713,094
2021/22	11,196,262	2.1%	£10,831,760	-364,502
2022/23	12,341,762	10.2%	£13,330,614	988,852
2023/24	13,133,474	6.4%	£14,536,308	1,402,834
2024/25	14,428,450	9.9%	£16,376,142	1,947,692
2025/26	17,555,724	21.7%		

Er bod cynnydd o 111% yn y gyllideb ers 2017/18, mae'r gyllideb yn parhau i fod yn annigonol ac, ar ddiwedd chwarter cyntaf 2025/26, mae gorwariant o £918k yn cael ei ragweld unwaith eto.

Mae LIC yn deddfu i ddileu elw o ofal plant, gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth gan y sector cyhoeddus. Yn y tymor hir, dylai'r cynnydd mewn capasiti olygu bod y costau a wynebir gan Gynghorau'n sefydlogi, ond nid yw'n datrys y broblem capasiti yn y tymor byr, ac mae rhai darparwyr sector preifat yn gadael y farchnad yng Nghymru, gan wneud y broblem yn waeth.

Er bod y Gwasanaeth yn ceisio lleihau costau, mae'r cynllun yn darparu ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r gorwariant, cyllid ychwanegol i gwrdd â chynnydd pellach yn y galw a chynnydd ar gyfer chwyddiant sy'n uwch na chwyddiant mewn prisiau cyffredinol. Bydd hyn yn golygu cynnydd o 13% yn y gofyniad cyllidebol yn 2026/27, 3.5% yn 2027/28 a 2.0% yn 2028/29.

ix. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Yn yr un modd â'r Gwasanaethau Plant, mae risg sylweddol y bydd y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion (yr henoed, iechyd meddwl, anableddau dysgu ac ati) yn cynyddu. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau chwyddiant ar gyflogau a chostau darparwyr yn y sector preifat. Mae Tabl 8 isod yn crynhoi'r sefyllfa ariannol:-

Tabl 8
Gwasanaethau Oedolion - Y Gyllideb a Gwirioneddol 2017/18 - 2025/26

Blwyddyn	Cyllideb £	Cynnydd yn y Gyllideb %	Gwirioneddol £	Amrywiant (%) £
2017/18	22,540,700		22,686,948	146,248
2018/19	24,921,360	9.6%	26,094,400	1,173,040
2019/20	25,205,360	1.1%	26,289,869	1,084,509
2020/21	27,159,700	7.2%	26,927,431	-232,269
2021/22	27,736,225	2.1%	27,599,371	-136,854
2022/23	30,583,049	9.3%	30,530,210	-52,839
2023/24	35,780,051	14.5%	35,194,687	-585,364
2024/25	38,956,887	8.2%	38,021,144	-935,743
2025/26	43,081,817	9.6%		

Bu cynnydd o 91% yn y gyllideb ers 2017/18 ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ddarparu'r holl wasanaethau o fewn y gyllideb a gytunwyd, ond mae hyn yn rhannol oherwydd ei fod wedi derbyn cyllid grant ychwanegol bob blwyddyn.

Mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 6.6% yn y gyllideb er mwyn cwrdd â chwyddiant a chynnydd yn y galw yn 2026/27, ynghyd â chynnydd o 4.4% yn 2027/28 a 2.4% yn 2028/29.

x. Digartrefedd

Cyfanswm y gyllideb net ar gyfer 2025/26 yw £1.463m, ac mae'n cynnwys £431k o cyllid grant LC sydd wedi'i gynnwys yn y setliad yn 2025/26. Mae trosglwyddo'r cyllid grant hwn yn golygu bod llai o risg na fydd y cyllid yn ddigon i gwrdd â'r galw. Er mwyn lliniaru'r risg ymhellach, mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn glustnodedig o £405k er mwyn cyllido unrhyw bwysau yn y galw a allai godi yn ystod y flwyddyn.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 dan reolaeth, ac mae'r Cyngor yn manteisio ar gynllun lesio preifat sy'n cynyddu gallu'r Cyngor i sicrhau fod tenantiaid sy'n cael eu lleoli yn yr eiddo yn gallu hawlio budd-dal tai llawn. Mae hyn yn ddewis rhatach na llety gwely a brecwast ac mae'n sicrhau fod costau net y Cyngor yn gostwng gan fod yr unigolion yn derbyn budd-dal tai.

Er bod atal digartrefedd yn rhoi pwysau ar gyllidebau nifer o gynghorau yng Nghymru, nid yw'n cael ei ystyried yn risg sylweddol ar Ynys Môn ar hyn o bryd ac, fel y cyfryw, nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol penodol wedi'u cynnwys yn y cynllun.

xi. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ers i'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i'r setliad llywodraeth leol, mae'r swm sydd yn yr Asesiad Gwariant Safonol gan LIC wedi aros fwy neu lai'r un fath. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Bu cynnydd o 0.9% yn y gyllideb ar gyfer 2025/26, er bod cynnydd o 8.2% yn y Dreth Gyngor (yn cynnwys praeseptau), oherwydd bod gorddarpariaeth yng nghyllideb 2024/25 a gywirwyd yn 2025/26.

Mae'n anodd penderfynu ar lefel y gyllideb ac mae'n gysylltiedig â pherfformiad yr economi a lefel diweithdra ar Ynys Môn. Mae lefel diweithdra yn y DU yn 4.7% ar hyn o bryd, ac mae disgwyl iddo godi i 5% erbyn diwedd y flwyddyn, cyn disgyn yn ôl i 4.5% erbyn diwedd 2027. O ganlyniad, nid yw'r cynllun ond yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn y gyllideb yn unol â'r cynnydd disgwyliedig yn lefel y Dreth Gyngor.

xii. Costau Cyllido Cyfalaf

Yn ogystal â thaliadau llog ar fenthyciadau presennol a rhai newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (a elwir yn Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI)). Penderfynir ar y DRI yn unol â'r Polisi DRI, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn gofyn am rywfaint o fenthycia ychwanegol ac, wrth i lefel y benthycia gynyddu, mae'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan y polisi DRI, ynghyd â thaliadau llog cysylltiedig, hefyd yn cynyddu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y CATC er mwyn ystyried lefel y benthycia â chefnogaeth a ganiateir yn y setliad cyllido, ynghyd â'r gwariant y mae'r Cyngor wedi'i gynllunio ac a nodir yn y strategaeth gyfalaf.

O ganlyniad i newid yn y Polisi DRI yn 2018, roedd darpariaeth y Cyngor ar gyfer MRP yn rhy uchel yn y gorffennol a manteisiodd y Cyngor ar y cyfle, yn 2025/26, i ostwng yr orddarpariaeth trwy ganiatáu blwyddyn o "wyliau" DRI. Mae'r gyllideb hon yn cael ei hadfer yn 2026/27, gan olygu cynnydd o £1.2m yn y gyllideb, ac mae addasiadau pellach yn cael eu gwneud yn y ddwy flynedd ddilynol er mwyn caniatáu ar gyfer y benthyciadau fydd eu hangen er mwyn cyllido gwariant cyfalaf newydd rhwng 2026/27 a 2028/29.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei falansau arian parod er mwyn cynhyrchu incwm drwy'r llog y mae'n ei dderbyn ac mae wedi manteisio ar gyfraddau llog a fu'n sylweddol uwch na lefelau hanesyddol. Bydd lefel y balansau arian parod sydd ar gael i'w buddsoddi a'r gyfradd llog yn disgyn yn ystod 2026/27, a bydd hyn yn lleihau'r incwm llog a gynhyrchir. Mae'r newid posib wedi'i gynnwys yn y cynllun.

xiii. Ardoll y Gwasanaeth Tân

Yn wahanol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll bob blwyddyn, sy'n cael ei rhannu rhwng y 6 awdurdod Gogledd Cymru ar sail poblogaeth, gydag Ynys Môn yn cyfrannu tua 10%. Mae'r ardoll wedyn yn cael ei gyllido o gyllideb refeniw net y Cyngor, ac mae Asesiad Gwariant Safonol LIC yn cynnwys swm mewn perthynas â'r gwasanaeth tân.

Yn debyg i Gynghorau, mae'r Gwasanaeth Tân wedi wynebu cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau cyffredinol a chyfraniadau pensiwn uwch. Ni chefnogwyd y cynnig i ailstrwythuro'r Gwasanaeth Tân gan yr Awdurdod Tân ac mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wrthi'n adolygu opsiynau eraill, a allai greu arbedion.

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod Tân ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2027 yn nodi y byddai'n rhaid cael cynnydd o 5.3% yn y gyllideb ar gyfer 2026/27. Fodd bynnag, nid yw hyn yn caniatáu ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn nac unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers llunio'r cynllun.

At ddibenion y rhagdybiaethau cynllunio, caniatwyd cynnydd yn unol â chwyddiant ar gyfer holl flynyddoedd y cynllun.

xiv. Pwysau Arall ar Wasanaethau

Mae newidiadau deddfwriaethol diweddar a digwyddiadau eraill yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd angen buddsoddi rhagor o arian mewn rhai gwasanaethau er mwyn delio â newidiadau deddfwriaethol, gwasanaethau'n methu neu broblemau recriwtio a chadw. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys: Rheoli Adeiladu, Caffael Corfforaethol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Pherfformiad Corfforaethol. Er nad oes unrhyw benderfyniadau ffurfiol wedi'u gwneud er mwyn ymateb i'r heriau hyn, mae'r cynllun yn cynnwys swm ychwanegol o £0.5m yn 2026/27 er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, ond, oherwydd y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, cydnabyddir efallai na fydd y buddsoddiad hwn yn bosib.


xv. Chwyddiant Cyffredinol mewn Prisiau

Mae cyllidebau blynyddol nad ydynt yn gyllidebau cyflogau yn cael eu cynyddu bob blwyddyn er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol neu benodol. Os nad yw contractau'n nodi pa fynegai prisiau penodol y dylid ei defnyddio, neu os nad yw pennawd gwariant penodol yn profi cyfradd chwyddiant sylweddol uwch neu is, yna defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel ffactor chwyddiant. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r CPI wedi parhau'n isel ac nid yw wedi bod yn ffactor sylweddol wrth benderfynu ar y gyllideb. Fodd bynnag, cododd chwyddiant yn sylweddol yn 2022, gan gyrraedd uchafbwynt o 11% yn Hydref 2022, cyn gostwng o dan darged Banc Lloegr, sef 2%, ym mis Medi 2024 a chynyddu eto i'r gyfradd bresennol o 3.6%.

Mae'r siart isod yn dangos rhagolygon presennol Banc Lloegr a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol:-

Siart 1

Lefelau Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a Ragwelir hyd at Fawrth 2028



Bydd tua £48m o gyllideb y Cyngor yn cael ei effeithio gan gynydd cyffredinol yn lefel chwyddiant.

Dim ond 2% a ganiatawyd yng nghyllideb 2025/26, ond mae amcangyfrif o'r gyfradd gyfartalog yn 3.4%, felly, bydd angen cywiriad o 1.4% yn 2026/27. Amcangyfrifir cynnydd o 2.2% yn 2026/27 hefyd, a 2.0% yn 2027/28 a 2028/29.

xvi. Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor

Mae'r Gwasanaethau Tai yn defnyddio elfen o bremiwm y Dreth Gyngor a godir ar dai gwag ac ail gartrefi er mwyn rhoi benthykiadau a grantiau i ymgeiswyr cymwys i'w helpu i brynu a / neu adnewyddu cartref ar Ynys Môn. Gosodwyd cyllideb o £1m yn 2025/26. Mae unrhyw danwariant ar y gyllideb hon yn cael ei ddal fel cronfa wrth gefn glustnodedig. Mae'n gyllideb o £1m ac mae'r cynllun yn caniatáu ar gyfer cynyddu'r gyllideb hon yn unol â'r cynnydd a ragwelir yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn.

- 6.1.** Mae cyfanswm cyllideb incwm bresennol y Cyngor (heb gynnwys y CAC, y Dreth Gyngor a chyllid grant penodol) yn £52.5m. Mae'n cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus (£28.1m), ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth (£7.8m), ffioedd a thaliadau a bennir gan y Cyngor (£6.7m), cytundebau rhent tymor hir mewn perthynas â thir ac eiddo (£1.8m) ac ail-godi tâl o fewn y Cyngor ar wasanaethau eraill y Cyngor (£8.1m). Mae'r gyllideb mewn perthynas â grantiau'r llywodraeth yn cynnwys grant o £2m tuag at gynnydd yng nghostau yswiriant gwladol, fydd yn cael ei drosglwyddo i'r setliad llywodraeth leol yn 2026/27.
- 6.2.** Polisi'r Cyngor oedd cynyddu ffioedd a thaliadau dewisol gan 3% bob blwyddyn, ond mae cynnydd uwch yn y ffioedd a thaliadau mewn rhai gwasanaethau wedi golygu bod ffioedd y Cyngor yn dod gryn dipyn agosach at y ffioedd a godir gan y sector preifat e.e. gwasanaethau hamdden. At ddibenion y cynllun hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau dewisol yn parhau i godi 3% y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun.
- 6.3.** Nid yw ffioedd a reolir gan statud neu LIC bob amser yn codi, neu'r mae'r cynnydd yn is na chwyddiant. Os yw'r cynnydd yn uwch na chwyddiant, mae'n bosib bod gofynion penodol ynghlwm â'r cynnydd, e.e. bydd cynnydd arfaethedig yn y ffioedd cynllunio'n golygu bod rhaid i'r Cyngor fuddsoddi mwy yn y gwasanaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth a'i wytnwch. O ganlyniad, mae effaith net y cynnydd mewn ffioedd yn llawer llai.
- 6.4.** Yn ogystal ag incwm o ffioedd a thaliadau, mae'r Cyngor yn derbyn swm sylweddol o incwm grantiau. Gall y grantiau a dderbynnir fod ar gyfer cyllido prosiectau neu wasanaethau penodol, tra bod eraill yn fwy cyffredinol eu natur ac yn cefnogi gwasanaethau craidd. O ystyried sefyllfa ansicr cyllid y sector cyhoeddus, mae risg y caiff grantiau eu targedu a'u gostwng er mwyn gostwng gwariant cyhoeddus, yn hytrach na gostwng y setliad ariannol cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan LIC. Os yw grantiau yn cyllido prosiectau penodol, yna mae'n bosibl dirwyn y prosiect i ben os daw'r grant i ben, ond mae hyn yn anos pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfuniad o gyllideb graidd a grantiau.

7. RHAGAMCAN O'R GYLLIDEB AR GYFER 2026/27 - 2028/29

- 7.1.** Gan ystyried yr holl faterion y manylwyd arnynt ym mharagraffau 5 a 6, a chan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2, mae'n bosibl amcangyfrif y gyllideb refeniw ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Fe'i dangosir yn Nhabl 8 isod:-

Tabl 8
Cyllideb Gwariant Refeniw Net Rhagamcanol 2026/27 - 2028/29

	2026/27 £'m		2027/28 £'m		2028/29 £'m	
Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol		195.443		208.076		213.214
Pwysau Chwyddiant						
Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon	1.598		0.931		1.459	
Dyfarniadau Cyflog Athrawon	1.789		1.007		0.809	
Contractau Gwasanaeth Mawr	0.851		0.487		0.497	
Chwyddiant Ynni	0.000		0.000		0.063	
Chwyddiant Arall nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau	1.303		0.793		1.013	
Incwm	(1.219)		(1.117)		(1.057)	
Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol	2.015		1.202		1.057	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Cynnydd yn y Dreth Gyngor	0.370		0.388		0.250	
Ardoll y Gwasanaeth Tân	0.190		0.109		0.112	
Cyfanswm Pwysau Chwyddiant		6.897		3.800		4.203
Pwysau sy'n cael ei arwain gan Alw						
Galw yn y Gwasanaethau Plant	0.858		0.189		0.000	
Galw yn y Gwasanaethau Oedolion	1.136		0.937		0.000	
Niferoedd Disgyblion	(0.125)		(0.217)		(0.273)	
Cludiant Ysgol	0.033		0.034		0.000	
Digartrefedd	0.022		0.022		0.000	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Newid yn yr Amcangyfrif o'r Llwyth Achosion	0.000		0.000		0.000	
Buddsoddiad mewn Gwasanaethau Eraill	0.500		0.200		0.000	
		2.424		1.165		(0.273)
Costau Eraill						
Trosglwyddo'r Grant YG i'r CAC	2.000		0.000		0.000	
Cyllido Cyfalaf	1.262		0.120		0.300	
Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Prosiectau Tai ac Erthygl 4	0.050		0.053		0.033	
Cyfanswm Costau Eraill		3.312		0.173		0.333
Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net		208.076		213.214		217.477
Cynnydd Blynnyddol		12.634		5.138		4.263
Canran Cynnydd Blynnyddol		6.46%		2.47%		2.00%

- 7.2. Mae'r amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net yn dangos cynnydd o 11.2% dros y 3 blynedd.
- 7.3. Mae rhagor o fanylion am yr amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm fel Atodiad 2 a 3.
- 7.4. Mae'r ffigyrau uchod yn seiliedig ar y sefyllfa fwyaf tebygol ar gyfer yr holl ragdybiaethau. Mae sefyllfaoedd gorau a gwaethaf wedi cael eu modelu hefyd. Mae'r modelau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau mwyaf gobeithiol a phessimistaidd ar gyfer pob pennawd gwariant. Mae Tabl 9 isod yn dangos canlyniadau'r ymarfer modelu:-

Tabl 9
Modelau Sefyllfaoedd Gorau a Gwaethaf 2026/27 - 2028/29

	Sefyllfa Orau	Cynnydd		Sefyllfa Waethaf	Cynnydd	
	£'m	£'m	%	£'m	£'m	%
Cyllideb Sylfaenol 2025/26	195.443			195.443		
Amcangyfrif o Gyllideb 2026/27	200.412	4.969	2.54%	218.572	23.129	11.83%
Amcangyfrif o Gyllideb 2027/28	202.166	1.754	0.88%	230.162	11.590	5.30%
Amcangyfrif o Gyllideb 2028/29	202.271	0.105	0.05%	243.492	13.330	10.13

- 7.5. Mae'r 3 sefyllfa, y gorau, y gwaethaf a'r mwyaf tebygol, yn rhoi ystod eang o amcangyfrifon ar gyfer y gyllideb refeniw net ofynnol ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac mae'n dangos bod cryn ansicrwydd yn bodoli mewn perthynas â chwyddiant, yn enwedig cyflogau, a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu fod cynllunio ariannol yn anodd iawn.

8. DADANSODDIAD SENSITIFRWYDD

- 8.1. Mae'r amcangyfrifon o'r sefyllfa ariannol a ddangosir yn Nhabl 8 uchod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â nifer o ffactorau. Dengys Tabl 10 isod y newid yn y gyllideb wariant net pe byddai 1% o amrywiant ym mhob rhagdybiaeth:-

Tabl 10
Effaith Ariannol Newid o 1% yn Rhagdybiaethau'r Gyllideb Ariannol

Rhagdybiaeth	Effaith Newid o 1% £'000
Dyfarniad Cyflog NJC	700
Dyfarniadau Cyflog Athrawon	380
Chwyddiant Cyffredinol	337
Chwyddiant Prif Gontractau Gwasanaeth	235
Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol	357
Incwm	(142)
Cyfradd Llog a Dderbynnir	(120)
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	(1,381)
Y Dreth Gyngor (heb gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)	(498)
Y Galw am Leoliadau Plant	86
Y Galw am Leoliadau Gwasanaethau Oedolion	290
Digartrefedd	11
Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	74

9. CYLLID ALLANOL CYFUN (CAC) A'R DRETH GYNGOR

- 9.1. Mae'r gyllideb ddisymud sy'n cael ei hamcangyfrif yn cael ei gyllido gan y CAC a dderbynnir gan LIC (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyfun Trethi Annomestig) a'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.
- 9.2. Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae LIC wedi datgan y bydd cynnydd o 2% yn y CAC yn y lle cyntaf (ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), er y gallai hyn newid yn dilyn ethol llywodraeth newydd ym Mai 2026. Nid oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd ynglŷn â lefel y CAC yn 2027/28 na 2028/29, ond mae dadansoddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn awgrymu toriad mewn termau real o 0.6% yn y CAC yn ystod y ddwy flynedd yma.
- 9.3. Yn 2025/26, derbyniodd Ynys Môn £135.881m mewn CAC gan LIC, ynghyd â swm pellach o £2.223m a dderbyniwyd fel grant i gwrdd â chostau yswiriant gwladol ychwanegol. Roedd gweddill y cyllid yn dod o'r Dreth Gyngor, £57.101m, a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun, £2.460m.
- 9.4. Ar sail y rhagdybiaethau uchod, byddai'r CAC yn codi i £140.866m yn 2026/27, £143.684m yn 2027/28 ac i £146.558m yn 2028/29, ond nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried unrhyw addasiadau sy'n codi o'r fformiwla ddyrannu neu effaith unrhyw newidiadau yn sylfaen y dreth.
- 9.5. Tâl Band D Ynys Môn ar gyfer 2025/26 yw'r 16eg uchaf allan o'r 22 awdurdod yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw cymharu'r tâl Band D yn rhoi cymhariaeth wirioneddol gan nad yw'n ystyried nifer yr eiddo ym mhob band. Mae awdurdodau sydd â nifer uchel o eiddo ym Mand A a B yn tueddu i fod â thâl Band D uwch er mwyn creu digon o incwm.
- 9.6. Drwy gymharu gwerth sylfaen y dreth fel canran o'r anheddau trethadwy, mae ffigwr Ynys Môn yn debyg i Sir y Fflint, Gwynedd a Cheredigion, sef tua 96% i 100%, ond mae tâl Band D Ynys Môn £74 yn is na Sir y Fflint, £202 yn is na Gwynedd a £181 yn is na Cheredigion. Awgryma hyn fod tâl Band D Ynys Môn yn rhy isel ac mae rhywfaint o hyblygrwydd i gynyddu'r tâl. Mae pob cynnydd o 1% yn y tâl Band D yn golygu cynnydd o £17 yn y gost. Byddai cynyddu'r tâl Band D i'r un lefel â Sir y Fflint yn creu £2.48m o refeniw'r Dreth Gyngor ychwanegol, £6.76m pe bai'r tâl ar lefel Gwynedd a £6.06m pe bai'r tâl yn unol â Cheredigion.

10. PREMIWM Y DRETH GYNGOR

- 10.1. Ers 2024/25, mae premiwm y dreth gyngor o 100% ar dai gwag ac ail gartrefi, a chynhyrchodd hyn gyllideb incwm o £4.26m yn 2025/26. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan LIC i gefnogi'r ddeddfwriaeth yn datgan:-

Gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'u hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

- 10.2. Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1m ar gyfer cyllido prosiectau a ddyluniwyd yn benodol i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf lleol, yn ogystal â dyrannu cyllid i weinyddu'r prosiectau, casglu'r premiwm, nodi incwm posib a gollir oherwydd twyll a thuag at gynyddu capasiti'r tîm datblygu economaidd. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor gyllido effaith nifer uchel o ail gartrefi yn yr ardal yn anuniongyrchol, trwy sybsideiddio ysgolion bach, delio ag effaith lefelau twristiaeth uchel ac unrhyw densiynau cymunedol sy'n deillio o dwristiaeth.
- 10.3. Mae LIC bellach wedi rhoi'r grym i awdurdodau lleol yng Nghymru godi premiwm o hyd at 300% ond, hyd yma, nid oes yr un Cyngor yng Nghymru wedi codi'r premiwm i'r lefel hwn.

- 10.4.** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwrriad i newid y premiwm ar ail gartrefi, ond mae newid y premiwm ar dai gwag yn cael ei ystyried er mwyn cynyddu'r premiwm po hiraf y bu'r eiddo'n wag. Mae opsiynau gwahanol wedi cael eu modelu a gallent gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lefelau incwm yn y cyfnod rhwng 2026/27 a 2028/29. Oherwydd bod ansicrwydd ynglŷn â pha newid fydd yn cael ei weithredu, a pha opsiwn, os o gwbl, a ddewisir, nid yw'r newid yn yr incwm yn deillio o newid y premiwm ar sail y cyfnod y bu'r eiddo yn wag wedi'i gynnwys yn y model ariannol ar hyn o bryd.
- 10.5.** Ym mis Ebrill 2023, cyflwynwyd rheolau newydd ar gyfer llety hunanarlwyo sy'n talu trethi busnes yn hytrach na'r Dreth Gyngor, ond dim ond yn awr mae'r newidiadau'n digwydd a'r eiddo'n trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gan olygu bod rhaid iddynt dalu'r premiwm ar ail gartrefi. Mae rhwng 150 a 200 eiddo wedi dychwelyd i'r gofrestr Dreth Gyngor, er bod nifer o berchnogion yr eiddo hyn wedi apelio ac mae'n bosib y byddant yn dychwelyd i'r gofrestr trethi annomestig yn y dyfodol. Mae hyn yn creu cryn ansicrwydd ynglŷn â sylfaen y dreth a gallai gynhyrchu mwy o incwm yn barhaol, h.y. pe byddai 200 eiddo Band D yn dychwelyd i'r gofrestr Dreth Gyngor a'u bod yn gorfod talu premiwm, byddai'n creu tua £680k o incwm ychwanegol.

11. BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN

- 11.1.** Mae gan y Cyngor ddigon o gyllid yn ei falansau cyffredinol i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn na ellir ei gyllido o'r gyllideb refeniw neu gyfalaf bresennol. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn cadw cronfeydd wrth gefn clustnodedig i dalu am risgiau posibl, costau prosiectau a gynlluniwyd yn y dyfodol a dal cyllid grant heb ei ddefnyddio, neu unrhyw gyllid arall sydd gan y Cyngor sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau.
- 11.2.** Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan y Cyngor £18.166m o falansau cyffredinol a £18.294m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r Cyngor wedi cytuno strategaeth ar gyfer balansau cyffredinol, sef cadw isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn. Felly, yn 2025/26, bydd angen balans cyffredinol o £9.77m neu fwy. Wrth osod cyllideb 2025/26, defnyddiwyd £2.46m o falansau cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb, ac mae hyn yn golygu bod y balansau cyffredinol yn gostwng i £15.706m, sef £5.93m yn uwch na'r isafswm balans gofynnol. Er hynny, dylid nodi y byddai unrhyw orwariant ar gyllideb refeniw 2025/26 yn cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol. Mae'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 2025/26 yn amcangyfrif tanwariant o £1.551m. Y balans a ragwelir felly yw £17.257m, sef £7.485m yn uwch na'r lleiafswm.
- 11.3.** Cynhaliwyd arolwg o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn 2023/24, a throsglwyddwyd £2.0m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor, a throsglwyddwyd swm ychwanegol o £0.095m yn ôl i'r balansau cyffredinol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn cynnwys £6.2m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer risgiau penodol, megis chwyddiant, colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a chynnydd yn y galw am wasanaethau penodol. Byddai'n bosib rhyddhau'r cronfeydd hyn yn ôl i'r balansau cyffredinol, ond, pe byddai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu, byddai sefyllfa ariannol y Cyngor yn gwanhau gan y byddai'n rhaid cyllido'r gost ariannol o'r balansau cyffredinol pe byddai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu.

12. YSGOLION

- 12.1.** Mae'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn elfen bwysig o gyllideb gyffredinol y Cyngor, ac mae 28.4% o'r gyllideb net gyffredinol yn cael ei dyrannu i ysgolion. Mae ysgolion hefyd yn cadw unrhyw arian sy'n weddill yn eu cronfeydd wrth gefn eu hunain, ac mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn arwydd da o'r pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion. Dengys Tabl 11 isod lefel balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a'r balans a ragwelir ar 31 Mawrth 2026, wedi i ysgolion ddyrannu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2025/26:-

Tabl 11
Balansau Ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a Rhagolwg o'r Balans ar 31 Mawrth 2026

	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Balans ar 31 Mawrth 2025	£2,579,318	£2,264,916	£229,403	£5,073,638
Defnyddiwyd i Gydbwysu Cyllideb 2025/26	£701,980	£1,520,510	£31,330	£2,253,820
Amcangyfrif o'r Balans ar 31 Mawrth 2026	£1,877,338	£744,406	£198,073	£2,819,818
Nifer o Ysgolion mewn Diffyg ar 31 Mawrth 2025	4	0	0	4
Nifer Ysgolion y disgwylir iddynt fod mewn Diffyg ar 31 Mawrth 2026	3	1	0	4

12.2. Mae'r balans cyffredinol yn rhoi rhyw fath o syniad, ond mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill wrth benderfynu ar iechyd ariannol pob ysgol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys maint yr ysgol a'r tuedd yn y balans dros nifer o flynyddoedd. Mae Tabl 12 isod yn dangos asesiad cryno o'r ysgolion:-

Tabl 12
Crynodeb o Iechyd Ariannol Ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026

Ar 31 Mawrth 2025				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Iach	8	3	1	12
Sefydlog a balans digonol	7	0	0	7
Gwaethygu ond balans digonol	9	1	0	10
Gwella ond balans isel	4	0	0	4
Balans yn parhau'n isel ond ddim yn gritigol	3	0	0	3
Gwaethygu ac yn dod yn gritigol	3	1	0	4
Critigol	4	0	0	4
Cyfanswm	38	5	1	44
Ar 31 Mawrth 2026				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Iach	3	0	1	4
Sefydlog a balans digonol	8	0	0	8
Gwaethygu ond balans digonol	11	3	0	14
Gwella ond balans isel	1	0	0	1
Balans yn parhau'n isel ond ddim yn gritigol	4	0	0	4
Gwaethygu ac yn dod yn gritigol	8	1	0	9
Critigol	3	1	0	4
Cyfanswm	38	5	1	44

12.3. Mae Tabl 12 yn cadarnhau bod sefyllfa ariannol ysgolion, at ei gilydd, yn gyffredinol dda, er bod y sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol. Mae Tabl 12 yn cadarnhau bod iechyd ariannol ysgolion yn gwaethygu, ac ystyrir mai dim ond 4 ysgol fydd mewn sefyllfa ariannol iach ym Mawrth 2026, o gymharu â 12 ym Mawrth 2025. Yn ogystal, mae mwy o ysgolion mewn perygl o fod mewn sefyllfa ariannol gritigol yn y tymor byr i ganolig.

13. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

13.1. Os yw'r modelu ariannol yn gywir, yna bydd angen swm ychwanegol o £12.63m i gwrdd â phwysau chwyddiant er mwyn darparu gwasanaethau presennol a chwrdd â'r pwysau galw yn 2026/27, er y dylid nodi fod y ffigwr hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau fydd angen eu hadolygu wrth i'r broses gyllidebol fynd rhagddi. Ar sail y rhagdybiaethau uchod, mae Tabl 13 isod yn dangos y sefyllfa gyllidebol bresennol yn ystod tair blynedd y cynllun:-

Tabl 13
Amcangyfrif o'r Diffyg Ariannol 2026/27 - 2028/29

	2026/27 £'m		2027/28 £'m		2028/29 £'m	
Diffyg Cyllidebol (yn unol â Thabl 8)		12.634		5.138		4.263
Cynnydd yn y CAC	(4.985)		(0.845)		(0.864)	
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	(2.853)		(2.998)		(1.889)	
Cyllid Ychwanegol		(7.838)		(3.843)		(2.753)
		4.796		1.295		1.510
Cronfeydd Wrth Gefn a Ddefnyddiwyd i Gydbwyso Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol		2.460		0.000		0.000
Amcangyfrif o'r Diffyg Cyllidebol ar ôl cyllido		7.256		1.295		1.510
Rhagdybiaeth o gynnydd yn y CAC		+ 2.0%		+0.6%		0.6%
Rhagdybiaeth o Gynnydd yn y Dreth Gyngor		+ 5.0%		+5.0%		3.0%

13.2. Os na fyddai'r CAC yn cynyddu, byddai angen cynnydd o 19.8% yn y Dreth Gyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2026/27. Byddai hyn yn gynnydd blynyddol o £338, gan olygu bod Dreth Gyngor Ynys Môn y 4^{ydd} uchaf yng Nghymru, gan dybio y byddai pob Cyngor arall yn cynyddu'r dreth gan 5% yn 2026/27.

13.3. Fel y gwelir ym mharagraff 11, mae gan y Cyngor rywfaint o gapasiti i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i leihau'r bwlch cyllido, ond mae risgiau'n gysylltiedig â defnyddio cronfeydd wrth gefn gan nad ydynt yn ffynhonnell incwm sydd ar gael flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac nid yw hyn chwaith yn osgoi'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Mae cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor hefyd yn lleihau wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ac mae'n gwanhau ei sefyllfa ariannol. Rhaid gofalu nad yw lefel y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir yn golygu nad oes gan y Cyngor ddigon o gyllid i gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl, neu fynd i'r afael ag unrhyw risgiau posib os ydynt yn cael eu gwireddu a bod angen gweithredu a chyllid.

13.4. Dengys Paragraff 12 bod rhywfaint o le gan ysgolion gyfrannu at y targed arbedion, er bod sefyllfa ariannol ysgolion yn gwaethygu. Mae'r model ariannol yn cynyddu'r gyllideb ddatganoledig ysgolion i £57.78m, sef 4% mewn termau ariannol, a byddai gostyngiad o 2% yn y gyllideb hon yn creu arbedion o £1.16m. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i ysgolion unigol gydbwyso eu cyllideb yn 2026/27, yn enwedig ysgolion llai lle ceir llai o hyblygrwydd mewn perthynas â maint dosbarthiadau.

- 13.5.** Y dewis sy'n weddill yw lleihau'r gyllideb wariant net ac, o ystyried bu tanwariant o rhwng £1.3m a £4.8m yn ystod y 5 mlynedd ariannol ddiwethaf, mae'n ymddangos bod rhywfaint o le i dorri cyllidebau ymhellach.
- 13.6.** Unwaith eto, gan ragdybio bod y bwlch cyllido yn £7.256m, mae hyn gyfystyr ag arbedion refeniw o 3.7% o gyllideb gwariant net 2025/26. Fodd bynnag, mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau sydd tu hwnt i reolaeth y Cyngor sy'n rhaid eu cyllido, maent yn cynnwys:-
- Ardoll y Gwasanaeth Tân - £5.19m yn 2025/26;
 - Costau Cyllido Cyfalaf - £4.64m yn 2025/26;
 - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - £7.56m yn 2025/26;
 - Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.02m yn 2025/26;
 - Lwfansau Aelodau - £1.19m yn 2025/26;
 - Ffioedd Archwilio ac Arolygu - £0.44m yn 2025/26;
 - Costau Crwner - £0.31m yn 2025/26.
- 13.7.** Yn ogystal, os gosodir cap ar y gyllideb ysgolion, ni fydd yn bosib cynnwys y gyllideb ysgolion mewn unrhyw dargedau arbedion pellach. Felly, bydd rhaid canfod unrhyw arbedion o'r cyllidebau sy'n weddill (£119.6m yn 2025/26), ac mae hyn gyfystyr ag arbedion o 6.1% o gyllidebau lle mae'n bosib gwneud arbedion.
- 13.8.** Mae tua 85% o wariant y Cyngor yn mynd ar wasanaethau statudol, a 3% arall ar wasanaethau rhannol statudol. O'r 12% sy'n weddill, mae 9% yn cael ei wario ar wasanaethau cefnogi, a dim ond 3% sy'n cael ei wario ar wasanaethau anstatudol. Mae'n anodd lleihau gwariant ar wasanaethau statudol a'r unig ffordd o wneud hynny yw trwy ddarparu'r gwasanaeth yn fwy effeithlon, neu leihau lefel y gwasanaeth a ddarperir a ddarparu'r isafswm a ddiffiniwyd yn unig.
- 13.9.** Mae'r gwaith o nodi arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gweithredu wedi dechrau ond, o ystyried y toriadau blaenorol oherwydd cynni ariannol a chynnydd yn y galw am wasanaethau, nid yw Gwasanaethau wedi darganfod unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol y gellir eu cynhyrchu. Ni ellir ond creu arbedion trwy leihau gwasanaethau neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.
- 13.10.** Ar sail y rhagolwg hwn, mae Tabl 14 isod yn dangos y dangosydd gwytnwch ariannol sy'n penderfynu'r bwlch cyllido fel canran o'r gwariant refeniw net:-

Tabl 14
Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido fel Canran o Wariant Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Ddisymud	CAC	Y Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol (nodyn 1)	Cyfanswm Cyllid Cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor	Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido	% Bwlch
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	132.337	94.924	33.644	128.568	3.769	2.85%
2019/20	134.702	95.159	35.087	130.246	7.156	5.21%
2020/21	142.203	101.005	39.370	140.375	1.828	1.29%
2021/22	147.076	104.825	41.161	145.986	1.090	0.74%
2022/23	155.501	114.549	42.957	157.506	(2.005)	1.29%
2023/24	173.830	123.665	44.879	168.544	5.286	3.04%
2024/25	188.992	127.586	47.628	175.214	13.778	7.29%
2025/26	199.025	135.605	52.628	188.233	10.792	5.42%
Nodyn 2 - Rhagolwg 2026/27	208.076	140.590	57.102	197.692	10.384	4.99%
Rhagolwg 2027/28	202.830	141.435	59.957	201.392	1.438	0.71%
Rhagolwg 2028/29	205.930	142.284	62.955	205.239	0.691	0.34%
Nodyn 1 - Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol wedi'u haddasu i ystyried newidiadau yn sylfaen y dreth						
Nodyn 2 – Mae'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2027/28 a 2028/29 yn cynnwys rhagdybiaeth bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27 yn cael ei haddasu a'i bod yn gostwng i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael						

13.11. Er bod y sefyllfa ar gyfer 2026/27 ychydig yn well na'r sefyllfa yn 2024/25 a 2025/26, mae'n parhau i fod yn flwyddyn ariannol eithriadol o heriol o safbwynt gosod y gyllideb. Mae'r sefyllfa'n dechrau gwella yn 2027/28, ond mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth bod chwyddiant a dyfarniadau cyflog yn aros yn isel, bod y galw am wasanaethau'n sefydlogi, bod arbedion yn cael eu nodi a'u cyflawni a bod y setliad llywodraeth leol yn cynyddu'n unol â chwyddiant, os nad yn fwy.

14. CASGLIADAU

14.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi amcangyfrif o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y 3 blynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, gyda rhai ohonynt yn fwy sicr na'i gilydd. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth cyllido yn y dyfodol, ond mae nifer o faterion yn cynyddu'r ansicrwydd ynglŷn â'r cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys amcangyfrif costau'r dyfodol ar adeg pan nad yw dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi'u cwblhau eto, amcangyfrif y galw am wasanaethau, effaith yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor a chyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn dilyn etholiad gyffredinol y DU ag etholiadau LIC, a gynhelir ym mis Mai 2026. Mae lefel y cymorth gan LIC yn elfen allweddol o'r CATC, ac mae diffyg rhagolygon cywir ynglŷn â lefel y cyllid yn y dyfodol yn golygu bod y cynllun yn gallu darparu llai o sicrwydd.

14.2. Bydd costau'n cynyddu'n sylweddol, yn enwedig yn 2026/27, yn sgil y galw am wasanaethau a'r pwysau i gynyddu cyflogau rhai rhannau o weithlu'r Cyngor (gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau dan contract). Os nad yw'r pwysau ychwanegol hyn yn cael ei adlewyrchu yn y setliad cyllido gan LIC, yna bydd rhaid i'r Cyngor dorri rhagor o wasanaethau a / neu bydd rhaid i'r cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn uwch na chwyddiant er mwyn gosod cyllideb gytbwys sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac adlewyrchu'n gywir gostau darparu'r gwasanaethau hynny.

- 14.3.** Mae gan y Cyngor rai cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn 2026/27 i helpu i leihau'r bwloch cyllido posibl, ond mae'r cyllid y gellir ei ryddhau wedi'i gyfyngu ac ni fydd yn pontio'r bwloch i gyd. Os defnyddir cronfeydd wrth gefn, bydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor a ni fydd ond yn gohirio'r angen i wneud arbedion cyllidebol neu gynyddu'r Dreth Gyngor. Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, bydd rhaid canfod tua £10m o arbedion parhaol, neu bydd angen cynnydd o £10m yn incwm y Dreth Gyngor, ar ben y cynnydd sy'n cael ei ragdybio, er mwyn datrys y sefyllfa ariannol bresennol.
- 14.4.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol ar hyn o bryd a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys o 2026/27 ymlaen.
- 14.5.** Rhaid ystyried cynyddu lefel y Dreth Gyngor yn uwch na'r lefel chwyddiant cyffredinol fel rhan o'r datrysiad ariannol tymor hir cyffredinol er mwyn cyllido'r diffyg ariannol.
- 14.6.** Ar gyfer 2026/27, fel yn y gorffennol, bydd angen cymysgedd o arbedion cyllidebol, cynnydd yn y Dreth Gyngor sy'n uwch na chwyddiant a defnydd gofalus o gronfeydd wrth gefn er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

RHAGDYBIAETHAU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Y SEFYLLFA FWYAF DEBYGOL			
	2026/27	2027/28	2028/29
Chwyddiant Cyflogau a Phrisiau			
Cyflogau, YG a Chostau Pensiwn - Staff nad ydynt yn Athrawon	3.6%	2.0%	2.0%
Cyflogau, YG a Chostau Pensiwn - Athrawon	4.8%	2.5%	2.0%
Cyfradd y Cyfraniad at y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)	-9.5%	0.0%	0.0%
Cyfradd y Cyfraniad at Bensiynau Athrawon	0.0%	0.0%	0.0%
Trydan	0.0%	0.0%	2.0%
Nwy	0.0%	0.0%	2.0%
CPI (gan gynnwys unrhyw gywiriad o'r flwyddyn flaenorol)	3.6%	2.0%	2.0%
Prif Gontractau Gwasanaeth	3.6%	2.0%	2.0%
Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol	4.1%	2.5%	2.0%
Ffioedd a Thaliadau	3.0%	3.0%	2.0%
Y Dreth Gyngor	5.0%	5.0%	3.0%
Cyllid Allanol Cyfun	3.7%	0.6%	0.6%
Grantiau'r Llywodraeth	2.0%	2.0%	2.0%
Ardollau	3.6%	2.0%	2.0%
Costau Cyllido Cyfalaf	24.8%	2.0%	5.0%
Pwysau oherwydd y Galw			
Lleoliadau Plant	10.0%	2.0%	0.0%
Lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion	5.0%	5.0%	0.0%
Cludiant Ysgol	2.0%	2.0%	0.0%
Digartrefedd	2.0%	2.0%	0.0%
Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	0.0%	0.0%	0.0%

CRYNODEB O AMCANGYFRIF O'R GYLLIDEB REFENIW NET 2025/26 - 2028/29

	2025/26 £'m	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m
Cyflogau - Staff nad ydynt yn Athrawon, gan gynnwys Pensiynau ac YG	69.905	71.503	72.933	74.392
Cyflogau - Athrawon, gan gynnwys Pensiynau ac YG	37.977	39.641	40.431	40.967
Costau Gweithwyr Eraill	2.572	2.655	2.705	2.760
Costau Adeiladau	7.716	7.996	8.156	8.319
Ynni	3.141	3.141	3.141	3.204
Trafnidiaeth	1.210	1.254	1.279	1.305
Cyflenwadau a Gwasanaethau	28.486	29.364	29.815	30.412
Cludiant Ysgol	4.403	4.596	4.722	4.816
Prydau Ysgol	3.487	3.613	3.686	3.759
Lleoliadau Allsirol Addysg	0.893	0.934	0.963	0.982
Trefniadau Addysg ar y Cyd	2.656	2.757	2.815	2.871
Gofal Cymdeithasol Oedolion	35.676	38.286	40.181	40.984
Lleoliadau Gofal Plant	10.831	12.231	12.665	12.918
Casglu a Gwaredu Gwastraff	8.817	9.137	9.319	9.506
Cynnal a Chadw Priffyrdd a Goleuadau Stryd	5.349	5.544	5.654	5.768
Gwasanaeth Trafnidiaeth Bws Cyhoeddus	1.395	1.446	1.475	1.504
Cymorth ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf / Erthygl 4	1.000	1.050	1.103	1.136
Digartrefedd	1.463	1.538	1.592	1.624
Lwfansau a Threuliau Aelodau	1.223	1.248	1.273	1.298
Crwneriaid	0.306	0.312	0.318	0.325
Ffioedd Archwilio ac Arolygu	0.441	0.450	0.459	0.468
Y Gwasanaeth Tân ac Ardollau Eraill	5.277	5.467	5.576	5.688
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Eraill	7.565	7.935	8.323	8.572
Costau Cyllido Cyfalaf a Llog a Dderbynnir	4.638	5.898	6.018	6.319
Hapddigwyddiadau	1.537	1.821	1.470	1.496
CYFANSWM GWARIANT GROS	247.964	259.817	266.072	271.393
Grantiau	(28.133)	(26.655)	(27.189)	(27.732)
Ffioedd a Thaliadau	(14.521)	(14.887)	(15.262)	(15.568)
Ail-godi Tâl	(8.063)	(8.359)	(8.530)	(8.701)
Rhenti	(1.804)	(1.840)	(1.877)	(1.915)
CYFANSWM INCWM GROS	(52.521)	(51.741)	(52.858)	(53.916)
GWARIANT REFENIW NET	195.443	208.076	213.214	217.477
Cynnydd yn y Gyllideb Refeniw Net		12.633	5.138	4.261
% Cynnydd yn y Gyllideb Refeniw Net		6.46	2.47	2.00

CRYNODEB O AMCANGYFRIF O'R GYLLIDEB REFENIW NET 2025/26 - 2028/29 FESUL GWASANAETH

	2025/26 £'m		2026/27 £'m		2027/28 £'m		2028/29 £'m	
Datblygu Economaidd	0.984		1.006		1.025		1.046	
Cyrchfan	0.859		0.886		0.902		0.920	
Hamdden	1.177		1.182		1.176		1.199	
Cynllunio	1.218		1.252		1.277		1.303	
Gwarchod y Cyhoedd	1.884		1.925		1.962		2.001	
Rheoleiddio		6.122		6.251		6.342		6.469
Priffyrdd	8.496		8.785		8.942		9.121	
Eiddo	1.874		1.901		1.929		1.967	
Gwastraff	10.394		10.764		10.964		11.184	
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo		20.764		21.450		21.835		22.272
Gwasanaethau Oedolion		43.082		45.917		47.956		48.915
Gwasanaethau Plant		17.556		19.117		19.687		20.080
Ysgolion	55.538		57.656		58.772		59.674	
Addysg Ganolog	13.981		14.505		14.797		15.093	
Diwylliant	1.666		1.704		1.731		1.765	
Addysg a Diwylliant		71.185		73.865		75.300		76.532
Adnoddau Dynol	1.824		1.868		1.905		1.944	
TGCh	5.081		5.247		5.397		5.505	
Trawsnewid	1.204		1.227		1.250		1.275	
Trawsnewid		8.109		8.342		8.552		8.724
Tai		2.036		2.119		2.179		2.222
Adnoddau		4.225		4.322		4.408		4.497
Busnes y Cyngor		2.213		2.265		2.510		2.560
Rheolaeth Gorfforaethol		0.823		0.840		0.857		0.875
Cyllido Cyfalaf	4.637		5.898		6.019		6.319	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor / Budd-daliadau	7.565		7.935		8.323		8.572	
Ardollau	5.277		5.467		5.576		5.688	
Cymorth ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf	1.000		1.050		1.102		1.136	
Corfforaethol a Democrataidd	2.238		2.288		2.330		2.376	
Ail-godi Tâl ar y CRT	(0.840)		(0.871)		(0.888)		(0.906)	
Arbedion i'w Canfod	0.000		0.000		0.000		0.000	
Hapddigwyddiadau	(0.549)		1.821		1.126		1.146	
Ddim yn gysylltiedig â Gwasanaethau		19.328		23.588		23.588		24.331
CYFANSWM GWARIANT NET		195.443		208.076		213.214		217.477

